Ysgol Dewi Sant

Cylchlythyr 18.12.2020

Galwad Zoom hefo Sion Corn!

Zoom call with Santa!





Dydd Llun, cafodd y plant alwad Zoom cyffrous iawn hefo Sion Corn! Roedd Sion Corn yn y gweithdy a chafodd y plant stori Nadoligaidd ganddo!

The children enjoyed a very exciting Zoom call on Monday with Santa! He was in his workshop and read the children a special story!









Dilynwch ni ar Drydar

@YsgolDewiSant

Follow us on Twitter

Diolch

Hwyl fawr i Mrs Heledd Smith wrth iddi ymddeol o'i swydd yma yn Ysgol Dewi Sant. Rydym mor ddiolchgar i chi am eich cyfraniad i fywyd yr ysgol ar hyd y blynyddedd ac yn dymuno ymddeoliad hapus i chi!

Good-bye to Mrs Heledd Smith who retires from her post here at the end of this term. We are very grateful for her contribution to the school over the years and wish her a very happy retirement.

Y cyfanswm a gasglwyd i elusen 'Achub y Plant' ar Ddiwrnod Siwmper Nadolig oedd.....

The amount raised for the charity 'Save the Children' on Christmas Jumper Day was.....

£310





Cinio Nadolig
Christmas Dinner

Diolch i staff y gegin am baratoi cinio Nadolig bendigedig i ni Dydd Mawrth, roedd yn flasus tu hwnt!

Thank-you to the kitchen staff for preparing a wonderful Christmas dinner for us on Tuesday, it was very tasty!











Rydym wedi mwynhau pob diwrnod o'n cystadleuaeth calendr adfent, gobeithio bod chithau hefyd wedi mwynhau gwylio'r fideo dyddiol ar ein cyfrif Trydar! Diolch i'r plant am addurno'r drysau mor fendigedig, i chi fel teuluoedd am gystadlu ac i'r busnesau a phobl caredig am eu rhoddion hael o wobrau.

We have enjoyed every day of our Advent Calendar competition; we hope you have also enjoyed watching the daily videos on our Twitter account! Thank-you to the children for decorating the doors so brilliantly, to you as families for competing and to the local businesses and kind people who have donated prizes!

Llongyfarchiadau!

Congratulations!

Llongyfarchiadau i Jessica a Ryan am eu llwyddiant yn y gystadleuaeth 'Simply Estates' yn darlunio cerdyn Nadolig. Daeth Jessica yn gyntaf gan ennill taleb £50 i 'Smyths Toy Store' a daeth Ryan yn 4ydd gan ennill hamper adnoddau celf a chrefft. Ardderchog!

Congratulations to Jessica and Ryan for their success in the 'Simply Estates' design a Christmas card competition. Jessica won 1st prize winning a £50 Smyths Toy Store voucher and Ryan came 4th winning an arts and crafts hamper. Well done to both of them!





DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Cyn gweld eich swigen Nadolig...

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Cadwch 2m ar wahân, golchwch eich dwylo a gwisgwch fasg lle bo rhaid



Dylech weld llai o bobl am 10 diwrnod ymlaen llaw (yn enwedig os oes pobl fregus yn eich swigen)

Cofiwch – bydd angen digon o le rhwng cadeiriau, agor ffenestri a digon o gynnyrch glanhau



Diogelu Cymru gyda'n gilydd

DIOGELU CYMRU
KEEP WALES SAFE

Before seeing your Christmas bubble...

Llywodraeth Cymru
Welsh Government



Keep 2m distance, wash hands, wear a mask where needed



Reduce contacts 10 days beforehand (especially if there are vulnerable people in your bubble)

Plan ahead - think about space for seating, ventilating rooms and cleaning products



Together we'll Keep Wales Safe



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb ohonoch sy'n gysylltiedig a'r ysgol. Rydym yn ddiolchgar iawn i chi am eich cefnogaeth a geiriau caredig yn ystod y tymor diwethaf tra rydym wedi gweithio'n galed i gadw pawb yn ddiogel yma yn yr ysgol. Mwynhewch y gwyliau Nadolig a rydym yn edrych ymlaen i groesawu y plant yn ôl yn ddiogel yn y flwyddyn newydd!

Merry Christmas and a Happy New Year to everyone connected to the school. We are very grateful for your support and kind words over the last term as we worked hard to keep everyone in the school safe. Enjoy the Christmas break and we look forward to welcoming the children back in the New Year!